

Nodyn Cyfarfod Cyngor Datblygu'r Economi

Amser: 09:30 – 11.30

Dyddiad: 1 Chwefror 2018

Lleoliad: Caerdydd 1, Parc Cathays, Caerdydd.

Gweinidogion yn Bresennol

Enw	Sefydliad
Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC	Prif Weinidog
Alun Davies AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Mark Drakeford AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Julie James AC	Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Ymddiheuriadau

Ken Skates AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
---------------	--

Rhanddeiliaid yn Bresennol

Lloyd Powell	ACCA
Ian Price	CBI
Martin Warren	ICAEW
Robert Lloyd Griffiths	IoD
Ben Cottam	Ffederasiwn Busnesau Bach
Mark Harris	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Lowri Morgan	Cymdeithas y Cyfreithwyr
David Morgan	RICS
Heather Myers	Siambwr Fasnach De Cymru
Derek Walker	Canolfan Cydweithredol Cymru
Nigel Keane	Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
Martin Mansfield	TUC Cymru
Nisreen Mansour	TUC Cymru

Ymddiheuriadau

Leighton Jenkins	CBI
Julie-Ann Haines	CML
Paul Byard	EEF (Cadeirydd Commerce Cymru)
Ifan Glyn	Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr
Ian Gallagher	Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau
Huw Thomas	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Jonathan Price	Llywodraeth Cymru
Emma Watkins	Llywodraeth Cymru
Julie Cook	TUC Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Y Fonesig Shan Morgan DCMG	Yr Ysgrifennydd Parhaol
Deri Ap Hywel	Eitem 2 ar yr Agenda
Simon Griffiths	Eitem 3 ar yr Agenda
Paul Harrington	Eitem 4 ar yr Agenda
Marcella Maxwell	
Huw Morris	
Andrew Slade	
Jane Anstee	Cofnodydd nodiadau
Derek Goode	Cofnodydd nodiadau

1. Cyflwyniadau a Sylwadau Agoriadol

1.1 Croesawodd y Prif Weinidog yr aelodau a chyflwyno Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ac Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip. Yn ogystal, croesawodd y Prif Weinidog Andrew Slade, sydd newydd ei benodi yn Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, gan gymryd lle James Price; sydd bellach yn Brif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru. Ychwanegodd fod Tracey Burke wedi cael ei phenodi'n Gyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus a dymunodd y gorau i Andrew a Tracey yn eu rolau newydd. Dywedodd y Prif Weinidog y dylai cynrychiolydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru fod yn bresennol yng nghyfarfod mis Mehefin. Dywedodd y Prif Weinidog nad oedd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, David Davis, wedi derbyn y gwahoddiad i ddod i gyfarfod y Cyngor hwn.

1.2 Nododd y Prif Weinidog y pum prif eitem ar yr agenda:

- Y diweddaraf am Gynllun Tasglu'r Cymoedd
- Swyddi Gwell yn Agosach i Gartref
- Trefniadau Pontio'r UE
- Cynllun Gweithredu Economaidd
- Adolygiad o weithredu Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru.

2. Y diweddaraf am Gynllun Tasglu'r Cymoedd

2.1 Gan gyflwyno cynllun Tasglu'r Cymoedd, dywedodd y Prif Weinidog fod nifer o heriau i oresgyn y canfyddiadau o'r Cymoedd. Fodd bynnag, mae'r cymoedd yn meddu ar rai asedau anhygoel sydd yn aml yn cael eu hanwybyddu, eu tanbriso a heb eu gwerthu i'r eithaf. Pan sefydlwyd Tasglu'r Cymoedd ym mis Gorffennaf 2016¹, nodwyd yn glir y byddai gwaith y Tasglu² yn cael ei arwain gan y bobl sydd yn byw ac yn gweithio yno. Erbyn hyn mae gennym Gynllun Iefel uchel, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf y llynedd - Ein Cymoedd, Ein Dyfodol³, ac mae gennym Gynllun Cyflawni⁴, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd y llynedd, i weithio ochr yn ochr ag ef gyda dros 60 o gamau gweithredu y byddwn yn canolbwyntio arnynt ac yn eu monitro.

¹ Datganiad i'r Wasg: <https://gov.wales/newsroom/improvingpublicservices/2016/new-approach-to-support-valleys-investment-announced/?skip=1&lang=cy>

² Aelodaeth y Tasglu: <https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/taskforce-for-the-valleys/?skip=1&lang=cy>

³ Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: <https://gov.wales/docs/dsijg/publications/comm/170720-our-valleys-our-future-cyv2.pdf>

⁴ Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni: <https://gov.wales/docs/dsijg/publications/comm/171107-our-valleys-our-future-delivery-planv3-cy.pdf>

- 2.2 Cyfeiriodd y Prif Weinidog at dri maes blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer y Cymoedd:
- Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni
 - Gwell gwasanaethau cyhoeddus
 - Fy nghymuned leol.
- 2.3 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ei fod yn glir bod canlyniadau Brexit yn 2016 wedi cyflwyno neges bwysig i Lywodraeth y DU a gwleidyddion ar bob lefel. Pwysleisiodd fod angen i ni wrando ar bobl, cydnabod hanes, deall cyflawniadau a dysgu gwersi o'r gorffennol. Dywedodd nad oedd neges y refferendwm, yn ei farn ef, yn ymwneud â mater yr Undeb Ewropeaidd yn unig, ond ei bod yn ehangach na hynny.
- 2.4 Ychwanegodd nad oedd Cymoedd unigol de Cymru yn dangos yr un nodweddion yn union, er enghraifft mae anghenion Cymoedd Gwent yn wahanol i anghenion ardal Gorllewin Abertawe. Felly roedd yn bwysig deall anghenion, gofynion a dyheadau pobl y Cymoedd ac roedd yn hanfodol bod y syniadau'n dod ganddyn nhw. Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Cynllun wedi'i ddatblygu ar y cyd â phobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd, a phan siaradwyd â phobl ledled y Cymoedd i lunio Cynllun mis Gorffennaf y llynedd, roedd yn glir bod yn rhaid i'r llywodraeth bennu targedau ac ailymgysylltu â chymunedau er mwyn ailadeiladu ymddiriedaeth.
- 2.5 Er y byddai'r weledigaeth ar gyfer y Cymoedd yn dod gan y bobl, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai angen i Lywodraeth Cymru greu cynllun cyflawni gydag amcanion ac amserlenni clir. Mae hyn i gyd yn hanfodol er mwyn i ni allu tynnu sylw at gyflawniadau gwirioneddol neu fod yn glir ynghylch lle rydym wedi methu. Rhaid cael atebolrwydd hyddysg gan gynnwys cyhoeddi'r holl bapurau a dogfennau i sicrhau tryloywder. Roedd Cynllun Cyflawni mis Tachwedd y llynedd yn cynnwys amcanion a thargedau.
- 2.6 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod seminarau canolfannau strategol wedi cael eu cynnal yn yr ardaloedd canolbwynt⁵ ers mis Tachwedd gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid i nodi prosiectau posibl y gellir eu hariannu a'u cyflwyno fel rhan o gam cyntaf y datblygiad ym mhob un o'r canolfannau strategol erbyn 2021. Mae'r neges o'r digwyddiadau hyn wedi bod yn wahanol ym mhob lleoliad, ond mae'r ddwy neges fwyaf a dderbyniwyd wedi bod ynghylch trafndiaeth a gwasanaethau cyhoeddus. Ychwanegodd mai un o'r pwyntiau a godwyd yn aml oedd yr angen am drafnidiaeth leol

⁵ Saith Ardal Canolfan Strategol Cymoedd De Cymru: Caerffili/Ystrad Mynach, Castell-nedd, Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr, Glyn Ebwy, Pontypridd/Trefforest, Merthyr Tudful a Chwmbwrân.

fforddiadwy o ansawdd uchel, a byddai'n cynghori ar gynnydd yn y cyfarfod nesaf.

- 2.7 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd menter y Cymoedd yn ymwneud â pharciau busnes ac ystadau diwydiannol yn unig, ond ei bod yn ymwneud hefyd â chymunedau cryf a chreu ymdeimlad o le sy'n gysylltiedig â hanes, diwylliant a'r amgylchedd naturiol. Am y rhesymau hyn, roedd Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn bod Parc Tirwedd y Cymoedd yn hanfodol wrth helpu i greu ymdeimlad pobl o le a chymuned.
- 2.8 Dywedodd Ian Price ei fod yn gyffredinol o blaid a chyfeiriodd at baragraff 12 yn y papur diweddar a'r economi sylfaenol. Gofynnodd am farn Ysgrifennydd y Cabinet ar effaith awtomatiaeth yn y sector manwerthu ac yn benodol yr effaith ar weithwyr rhan-amser y mae llawer ohonynt yn famau sy'n gweithio. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Cynllun Gweithredu Economaidd yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn gweld awtomatiaeth fel cyfle. O ran Llywodraethu, gofynnodd Ian a fydd adroddiad blynyddol, gan ei bod yn bwysig olrhain mesurau a thargedau, gan gynnwys lle nad ydynt wedi cael eu cyflawni. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r Tasglu yn adrodd ym mis Gorffennaf: y nod yw helpu 7,000 o bobl ddi-waith ac economaidd anweithgar i waith erbyn 2021.
- 2.9 Fel aelod o'r Tasglu, dywedodd Martin Mansfield ei fod wedi anfon nodyn yn uniongyrchol at Ysgrifennydd y Cabinet. Dywedodd yn gryno y byddai wedi hoffi gweld y Cynllun Gweithredu yn fwy uchelgeisiol ond cydnabu y cymerwyd llwybr canol fel nad oeddent yn gor-ymestyn ac yn creu risg o dangyflawni.
- 2.10 Cyfeiriodd Martin hefyd at faterion ar fesur llinell sylfaen, pwysigrwydd treialu ffyrdd o gyflawni llwyddiant, creu swyddi gwirioneddol nid 'cynlluniau' yn unig. Dywedodd hefyd na ddylai fod yn unrhyw swydd; roedd yn rhaid i swyddi fod yn rhai go iawn, o ansawdd da, yn hirdymor ac wedi'u lleoli yn y gymuned.
- 2.11 Croesawodd Derek Walker y papur a nododd y camau gweithredu sy'n ymwneud â'r economi sylfaenol, a dywedodd fod angen cefnogaeth fwy penodol arnom ac awgrymodd y gellid defnyddio cronfeydd strwythurol yn y dyfodol i gefnogi'r economi sylfaenol.
- 2.12 Dywedodd Ben Cottam ei fod yn ddiolchgar am y diweddariad heddiw a'i fod wedi cael cyfarfodydd defnyddiol gyda swyddogion. Dywedodd y dylem edrych ar ffyrdd o ddatblygu hunangyflogaeth yn economi'r Cymoedd. Dywedodd nad oedd yn ymwneud â'r sector cyhoeddus yn unig, gan y dylid ystyried partneriaid fel prifysgolion hefyd. Ychwanegodd y gellid manteisio ar rwydweithiau i bontio'r rhwystrau daearyddol.

- 2.13 Nododd Martin Warren o baragraff 11 y bydd Bargeinion Dinesig yn cyd-fynd â strwythurau/prosesau ehangach ac yn cael eu cysylltu gyda'i gilydd i hyrwyddo'r rhanbarth.
- 2.14 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod pŵer y llywodraeth yn cael ei harneisio fel catalydd i ddod â phobl ynghyd a sicrhau newid. Ychwanegodd fod angen i ni symleiddio camau cyflawni'r llywodraeth ac osgoi dyblygu, ac roedd yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r Byrddau Bargen Ddinesig i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o'r dirwedd i osgoi dyblygu diangen. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn ddiolchgar am y sylwadau cadarnhaol gan y canolfannau strategol.
- 2.15 Mewn ymateb i bwyntiau a godwyd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn falch bod aelodau wedi codi'r economi sylfaenol gan fod hyn yn bwysig. Dywedodd hefyd fod themâu cyffredin ar draws y Cymoedd. O ran awtomatiaeth, dywedodd y byddai hyn yn fater ym maes manwerthu ond y dylem hefyd fanteisio ar y cyfleoedd y gallai hyn eu cynnig ac y gallai'r Cynllun Gweithredu Economaidd ein helpu i fanteisio ar y rhain.
- 2.16 Cytunodd Ian Price y gallai awtomatiaeth ddarparu cyfleoedd y dylid eu harneisio.
- 2.17 Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet gydnabod bod y dull yn y Cynllun yn ymestynnol ond ei fod yn gyraeddadwy ac y byddai'n newid dynameg y Cymoedd. Ychwanegodd y byddai'r targed o 7,000 o bobl ychwanegol i waith yn cael ei gefnogi'n fawr gan ddatblygiadau'r canolfannau strategol. Roedd ein data'n dangos bod 80% o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn gallu manteisio ar o leiaf un canolfan strategol o fewn 45 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan godi i 93% o fewn 60 munud. Cyfeiriodd hefyd at ganolfannau cydweithredol fel sector pwysig, ac ychwanegodd y byddai creu ffordd ddeuol ar yr A465 yn fuddsoddiad buddiol mewn seilwaith.

3. Swyddi Gwell yn Agosach i Gartref

- 3.1 Dywedodd y Prif Weinidog fod tîm trawslywodraethol yn symud y rhaglen Swyddi Gwell yn Agosach i Gartref ymlaen er mwyn alinio amrywiaeth o brosiectau masnachol gydag ymyriadau eraill i gefnogi creu cyflogaeth ystyrlon mewn cymunedau gyda lefelau uchel o ddiweithdra.
- 3.2 Gofynnodd y Prif Weinidog i Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip amlinellu'r cynnydd a gyflawnwyd hyd yma.
- 3.3 Dywedodd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip fod TUC Cymru i ddechrau wedi dod â chynnig i Lywodraeth Cymru. Canmolodd y tîm yn y Llywodraeth y mae wedi bod yn gweithio gyda nhw ac amlinellu rhai o'r problemau roedd

rheid iddyn nhw eu goresgyn, gan gynnwys cymorth gwladwriaethol, mapio'r gadwyn gyflenwi a rheoliadau caffael. Dywedodd fod y pedwar Cynllun Peilot Swyddi Gwell yn cynnwys defnyddio deddfwriaeth caffael i gadw contractau addas, gan alluogi ffurfio ffatrioedd newydd a gefnogir a fyddai'n rhoi cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddi i'r bobl sydd dan yr anfantais fwyaf yn yr ardal.

3.4 Ceir pedwar cynllun peilot gyda dau gynllun peilot arall yn cael eu creu. Mae pob un o'r cynlluniau peilot yn fwriadol yn wahanol iawn o ystyried gwahanol arferion, dulliau a syniadau fydd yn rhoi tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, lle a p'un a ellir ei atgynhyrchu mewn rhanbarth arall a p'un a ydyn nhw'n barod i fynd:

- i. Mae **Cynllun Peilot 1** yn ganolfan gweithgynhyrchu a fydd yn caffael partner cymdeithasol i redeg uned gweithgynhyrchu yng Nglynebwy. Bydd yr uned yn gweithredu fel Marchnad Lafur Drosiannol (ILM) yn y Gadwyn Gyflenwi Economaidd Sylfaenol, gan wneud nwyddau ar ben uchaf y farchnad i'w defnyddio mewn diwydiannau, gan gynnwys y sector cyhoeddus. Bydd y swyddi gwarchodol sy'n cael eu creu yma yn galluogi pobl i gael cyflogaeth, hyfforddiant ac yn y pen draw symud ymlaen i swyddi eraill.
- ii. Mae **Cynllun Peilot 2** yn fenter gymdeithasol bresennol sy'n cyflogi pobl dan anfantais a'r nod yw cynyddu oriau'r gwaith ar gyfer y gweithlu presennol. Maent yn cynhyrchu arwyddion ac mae galw ychwanegol am arwyddion wedi'i roi ar y ffatri gan ddau awdurdod lleol drwy eu contractau presennol. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi penderfynu defnyddio'r ffatri hon yn gyfan gwbl ar gyfer eu gofynion arwyddion yn y ddogfen tendro ar gyfer caffael y gweithredwr trenau. Mae'r cynllun peilot hwn wedi dangos nad oes unrhyw resymau caffael na chytundebol dros beidio â gwneud hyn ac nad oes rhaid i ni ddewis y pris isaf bob amser.
- iii. Mae **Cynllun Peilot 3** yn casglu paent gwastraff ac yn ei ail-drin i'w ddefnyddio eto. Mae'r Tîm Swyddi Gwell yn datblygu Cerbyd Pwrpas Arbennig i atgynhyrchu gweithrediad tebyg sydd wedi'i leoli yn Birmingham ar hyn o bryd. Mae'r Tîm Swyddi Gwell wedi cael ymrwymiad gan gadwyni cyflenwi i ddefnyddio'r paent wedi'i ail-drin o Gymru ar brosiectau yng Nghymru fel Trafnidiaeth Cymru a fydd yn defnyddio hwn yn gyfan gwbl.
- iv. Mae **Cynllun Peilot 4** yn fenter gymdeithasol bresennol, sy'n cyflogi pobl anabl, digartref a phobl sydd wedi bod yn ddi-waith yn hirdymor ac yn gweithredu fel Marchnad Lafur Drosiannol. Mae'r cwmni o Ferthyr yn casglu, yn didoli ac yn rhwygo papur gwastraff yn ddarnau ond mae

angen mwy o dunelli o bapur arno i gynyddu'r cyfleoedd am gyflogaeth yn y gweithrediad, ac i'r gweithrediad ddod yn hunangynhaliol yn ariannol.

- 3.5 Dywedodd Martin Mansfield mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru oedd newid ei dull caffael o ran contractau sector cyhoeddus addas, gan alluogi ffurfio ffatrioedd newydd a gefnogir a fyddai'n rhoi cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddi i'r bobl fwyaf difreintiedig yn yr ardal. Dywedodd fod y cynlluniau peilot yn gam angenrheidiol. Ychwanegodd y gallent gael eu hefelychu ledled Cymru os byddant yn llwyddiannus ac y gallai Llywodraeth y DU ddysgu ohonynt hefyd. Gofynnodd am ragor o fanylion am y gwersi a ddysgwyd. Er enghraifft, byddai'n ddefnyddiol gwybod sut y byddai gwaith teg yn cael ei gyflawni a sut rydyn ni'n sicrhau bod gweithwyr yn symud o'r cynlluniau peilot i gyflogaeth allanol. Gofynnodd hefyd sut rydym yn bwriadu gwerthuso ac yn y pen draw sut y bydd yr holl gaffael yn cael ei newid i adlewyrchu'r ffordd newydd hon o weithio.
- 3.6 Cyfeiriodd Robert Lloyd Griffiths at Fusnesau Bach a Chanolig (BBaCh) llai yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio o gontractau caffael, ac felly roedd cyfle enfawr i hyrwyddo'r cynlluniau peilot i gynnwys BBaCh.
- 3.7 Dywedodd Derek Walker fod ei sefydliad wedi bod yn rhan o'r pedwar cynllun peilot gan eu bod yn fentrau cymdeithasol. Dywedodd ei fod wedi bod yn llawer mwy cymhleth na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, ond roedd y tîm wedi creu argraff arno drwy oresgyn y rhwystrau i greu'r cynlluniau peilot.
- 3.8 Dywedodd Lowri Morgan fod y cynnydd o ran caffael yn arwyddocaol ac yn gyfle gwych.
- 3.9 Dywedodd Ian Price fod Cynllun Peilot 2 yn fusnes da heb gymorth. Ychwanegodd nad y pris isaf yw'r gwerth gorau bob amser a bod angen i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol edrych ar ei gylch gorchwyl.
- 3.10 Nododd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip yr hyn a deimlai oedd y gwersi a ddysgwyd hyd yma:
- Dewiswyd pedwar cynllun peilot gwahanol yn fwriadol i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer y bobl fwyaf difreintiedig yn yr ardal, sy'n cynnwys llawer o waith yn y gadwyn gyflenwi.
 - Roedd hi wedi gwneud llawer o waith yn ymchwilio i'r wybodaeth yn y gronfa ddata caffael sydd wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth gadarnhau nid yn unig pwy sy'n gwario beth, ond pam eu bod nhw'n gwneud hynny yn y ffordd honno.

- Mae'n gweithio gydag Ysgrifenyddion Cabinet a Gweinidogion eraill yn ogystal ag awdurdodau lleol, y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a chwmnïau, gan gynnwys edrych ar fylchau yng nghadwyrni cyflenwi'r sector cyhoeddus a'r sector preifat.
- Efallai y bydd rhai o'r cynlluniau peilot dim ond yn gweithio o dan amgylchiadau penodol a bydd yn edrych ar pam eu bod nhw/pam nad ydyn nhw'n llwyddiannus. Bydd y tîm yn casglu'r dystiolaeth perfformiad a defnyddio hynny i asesu effeithiolrwydd y cynlluniau peilot.
- Mae dau gynllun peilot arall ar y gweill. Mae'n bosibl y bydd un o'r rhain yn cynnig cyfle i lenwi'r bwch mewn cadwyn gyflenwi yn y sector preifat.
- Mae'r cynlluniau peilot wedi cael eu rhedeg mewn ffordd y gellir eu datblygu, eu symud neu eu haddasu os oes angen. Byddant yn treialu amrywiaeth o arferion busnes a chyflogaeth.
- Dywedodd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ei bod yn edrych ymlaen at adrodd ar gynnydd y cynlluniau peilot mewn chwe mis ac y byddai o bosibl yn cynnal gweithdy arddangos yn y dyfodol.

4. Trefniadau Pontio'r UE

- 4.1 Dywedodd y Prif Weinidog na dderbyniwyd ei welliannau i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)⁶ gan Lywodraeth y DU ar y Cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin⁷ na'r Cam Adrodd. Ychwanegodd y Prif Weinidog na allai gefnogi Cynnig Cysyniad Deddfwriaethol ar yr adeg hon. Fodd bynnag, ychwanegodd fod Prif Weinidog y DU wedi ymrwmo i gyflwyno gwelliannau yn Nhŷ'r Arglwyddi.
- 4.2 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid bod Cam 1 trafodaethau Brexit wedi dod i ben ym mis Rhagfyr, ac fe wnaeth groesawu'r cytundeb gan ei fod yn nes at sefyllfa Llywodraeth Cymru fel y nodwyd yn ei Phapur Gwyn, Diogelu Dyfodol Cymru⁸, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017. Er enghraifft, gwnaethom awgrymu bod trefniadau pontio yn hanfodol ar gyfer sefydlogrwydd i fusnesau ac mae'r rhain bellach yn rhan o safbwynt Llywodraeth y DU. Ychwanegodd fod cytundeb Cam 1 wedi'i nodi yn yr Adroddiad ar y Cyd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Du a'r Comisiwn

⁶ <https://services.parliament.uk/bills/2017-19/europeanunionwithdrawal.html>

⁷ 16 Ionawr 2018, [Datganiad Ysgrifenedig y Prif Weinidog](#) - Bil yr UE (Ymadael)

⁸ <https://gov.wales/newsroom/firstminister/2017/170123-brexite-plan/?skip=1&lang=cy>

Ewropeaidd ar 8 Rhagfyr⁹ ac sy'n rhoi sylw mewn egwyddor ar draws y tri phrif faes o dan ystyriaeth:

- diogelu hawliau dinasyddion yr Undeb yn y DU a dinasyddion y DU yn yr Undeb
- y fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r amgylchiadau unigryw yng Ngogledd Iwerddon
- y setliad ariannol.

- 4.3 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi ceisio gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU i ddiwygio Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i sicrhau y bydd yn llwyddiant. Ychwanegodd fod y Bil fel y mae ar hyn o bryd yn cynrychioli ymosodiad sylfaenol ar ddatganoli ac y byddai'n rhoi cyfyngiadau presennol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, a fydd yn disgyn i ffwrdd o ganlyniad i'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, gyda set newydd o gyfyngiadau o ran cymwyseddau datganoledig a fyddai'n cael eu rheoli gan Lywodraeth y DU. Os na fydd y trafodaethau mae Ysgrifennydd y Cabinet yn eu cael gyda Llywodraeth y DU yn arwain at y gwelliannau angenrheidiol i'r Bil wrth symud ymlaen, dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithredu ac yn cyflwyno Bil Parhad i Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol.
- 4.4 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cronfa Pontio o'r UE gwerth £50 miliwn¹⁰ yn gynharach y mis hwn. Mae'r gronfa hon yn dal i fod yn y camau ffurfiannol, a fydd yn rhoi cefnogaeth mewn ardaloedd datganoledig ac mae'n rhan o gynlluniau Brexit Llywodraeth Cymru i helpu busnesau a gwasanaethau cyhoeddus yn uniongyrchol ar gyfer y newidiadau sylweddol sydd ar y ffordd.
- 4.5 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi papur polisi ym mis Rhagfyr, Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit¹¹, sy'n cefnogi trafodaethau gyda rhanddeiliaid ledled Cymru ar ddyfodol polisi rhanbarthol ar ôl Brexit.
- 4.6 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet bod papur pellach wedi'i gyhoeddi heddiw'n canolbwyntio ar fasnach.¹² Ategir papur masnach Brexit gan ddadansoddiad o effaith economaidd gan Ysgol Fusnes Caerdydd. Mae'n

⁹ <https://www.gov.uk/government/publications/joint-report-on-progress-during-phase-1-of-negotiations-under-article-50-teu-on-the-uks-orderly-withdrawal-from-the-eu>

¹⁰ <https://gov.wales/newsroom/firstminister/2018/180108-50m-fund-to-help-prepare-wales-for-brexite/skip=1&lang=cy>

¹¹ <https://gov.wales/funding/regional-investment-in-wales-after-brexite/skip=1&lang=cy>

¹² <https://gov.wales/newsroom/firstminister/2018/180201-first-minister-sets-out-vision-for-trade-post-brexite/skip=1&lang=cy>

dadlau bod economi Cymru'n cael ei diogelu orau drwy gadw mynediad llawn at y Farchnad Sengl Ewropeaidd ac aelodaeth o'r undeb tollau, er bod dod o hyd i bartneriaid masnachu yn bwysig hefyd.

- 4.7 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod ar fin cychwyn ar adolygiad o Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIP)¹³ ac y byddai'n siarad gydag aelodau Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar gyfer Twf a Swyddi 2012 ar sut i ddefnyddio ffynonellau cyfalaf am y 5 mlynedd nesaf.
- 4.8 Croesawodd Ben Cottam y Gronfa £50 miliwn, gan ychwanegu y bydd yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar sut y gallai'r Gronfa helpu busnesau drwy'r cyfnod pontio. Dywedodd y byddai'n croesawu mwy o fanylion ar sut y byddai'r gronfa'n gweithio.
- 4.9 Ychwanegodd nad oedd llywodraeth y DU wedi cytuno ar amserlen eto er eu bod wedi bod yn ceisio cytuno ar gyfnod pontio, ac y teimlai mai tair blynedd y dylai hwn fod. Gwnaeth hefyd groesawu'r papur Masnachu a chytunodd y byddai'r UE yn parhau i fod y partner masnachu gorau wrth symud ymlaen. Gofynnodd pa mor ddefnyddiol oedd y cyfarfod JMC.
- 4.10 Dywedodd Martin Warren ei fod yn canmol y Gronfa ac y dylid ei defnyddio i fanteisio ar gyfleoedd newydd.
- 4.11 Croesawodd Heather Myers y Gronfa a dweud bod angen i ni sicrhau ein bod yn darparu cefnogaeth gytbwys i sefydliadau a busnesau.
- 4.12 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r aelodau am eu cefnogaeth a dweud y byddai'r Gronfa yn helpu i lywio meddwl a'i bod yn cynnwys cefnogi cyfleoedd newydd a delio gyda chanlyniadau anffafriol Brexit. Ychwanegodd ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglenni manwl o gefnogaeth sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth o ymyriadau.
- 4.13 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn pwysu ar Lywodraeth y DU i gytuno ar eiriaad a fyddai'n caniatáu hyblygrwydd o ran y cyfnod pontio rhag ofn y bydd angen mwy o amser. Dywedodd nad oedd ef yn bersonol o blaid terfynau amser llinell goch gan ei bod yn well ganddo ei wneud yn dda nid yn gyflym.
- 4.14 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y JMC (EN)¹⁴ wedi gweithio'n well yn yr hydref, ond mae'r ymdeimlad o fomentwm wedi cael ei golli oherwydd bod deufis ers y cyfarfod diwethaf.

¹³ [Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi 2012](#)

¹⁴ JMC(EN) – Cyd-gyngor Gweinidogol Ewropeaidd (Trafodaethau)

- 4.15 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Gweinidogion Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i gytuno ar fframweithiau cyffredin i'r DU drwy gydsyniad. Ni fyddant yn gweithio heb fodel llywodraethu y cytunwyd arno gan bawb. Ychwanegodd nad yw'r JME (EN) yn addas gar gyfer y tymor hir. Roedd angen corff newydd oedd yn seiliedig ar reolau ac wedi'i sefydlu ar barch at ei gilydd, sef yr hyn mae'r Prif Weinidog wedi bod yn galw amdano.

5. Cynllun Gweithredu Economaidd

- 5.1 Dywedodd y Prif Weinidog fod y Cynllun Gweithredu Economaidd wedi'i gyhoeddi ar ddiwedd y llynedd¹⁵. Dywedodd mai'r prawf gwirioneddol fyddai cyflawni a gweithredu'r Cynllun.
- 5.2 Dywedodd y Prif Weinidog y byddai aelodau wedi gweld y papur byr a luniwyd ar gyfer cyfarfod heddiw sy'n cyflwyno cyfres o gwestiynau ar weithredu newidiadau polisi allweddol. Dywedodd fod angen cymorth aelodau arno wrth ddiffinio 'gofynion' y busnes o ran amodau'r Contract Economaidd a'r Galwadau i Weithredu.
- 5.3 Dywedodd y Prif Weinidog fod y Cynllun yn cynnwys dwsinau o gamau gweithredu, ond bod ein ffocws uniongyrchol ar weithredu ein pedwar newid polisi 'mawr':
- sefydlu'r Contract Economaidd
 - ymgorffori'r Galwadau i Weithredu
 - cyflwyno'r Gronfa Dyfodol yr Economi
 - cyflawni ar y dull rhanbarthol.
- 5.4 Dywedodd y Prif Weinidog ei bod yn bwysig iawn wrth roi'r Cynllun ar waith i weithio gyda strwythurau ymgynghori presennol yn ogystal â chael sgysiau ehangach pan fo angen. Lle byddai barn aelodau yn ddefnyddiol iawn, dywedodd y Prif Weinidog fod un broblem gweithredu yn ymwneud â diffinio meini prawf ein Contract Economaidd a'n Galwadau i Weithredu. Atgoffodd yr aelodau fod cwestiynau i'r aelodau eu hateb ar ddiwedd y papur byr a ddosbarthwyd ar gyfer yr eitem hon ar yr agenda (CfED 01/02/2018).
- 5.5 Dywedodd Ian Price fod penodi Prif Swyddogion Rhanbarthol yn syniad rhagorol.
- 5.6 Dywedodd Ben Cottam ei fod yn optimistaidd a'i fod yn sylweddoli bod angen llawer o ymgysylltu. Ychwanegodd:

¹⁵ <https://gov.wales/newsroom/businessandconomy/2017/171212-new-economic-contract-to-drive-competitiveness-and-growth-with-purpose/?skip=1&lang=cy>

- Mae'n hanfodol bod y Contract Economaidd yn gyraeddadwy ac yn ymarferol ar gyfer y busnesau lleiaf.
- Galwadau i Weithredu – mae angen pwyslais ar gadwyni cyflenwi preifat a chyhoeddus Cymru.
- Dull rhanbarthol - dylid grymuso rhanbarthau a dylid symud oddi wrth rhoi gormod o bwyslais ar sectorau. Dywedodd fod diffyg mentrau canolig eu maint yng Nghymru ac y gallai'r Cynllun fod yn ysgogiad o ran sut i dyfu'r busnesau hyn.

5.7 Croesawodd Martin Mansfield y Cynllun a dweud ei fod yn gyfle ar gyfer newid diwylliannol mawr mewn cynllunio economaidd, gan gynnwys ymgorffori gwaith teg yn y Contract Economaidd. Ychwanegodd y bydd gweithredu a chyflawni yn hanfodol a bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol i gyflawni'r Cynllun. Bydd y Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol yn fan delfrydol i gael y trafodaethau hyn.

5.8 Dywedodd y Prif Weinidog y bydd y Prif Swyddogion Rhanbarthol yn adrodd gwybodaeth leol yn ôl i Weinidogion. Ychwanegodd y byddant yn nodi blaenoriaethau ym mhob Rhanbarth a dywedodd hefyd y byddai'r model llywodraethu yn hanfodol i lwyddiant.

6. Adolygiad o Weithredu Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru

6.1 Diolchodd y Prif Weinidog i'r rhai hynny wnaeth ymateb i'r holiadur ar yr Adolygiad o Weithrediad ac Effaith y Cynllun Busnes¹⁶. Ychwanegodd fod yr ymatebion wedi cael eu defnyddio ochr yn ochr â'r ymatebion gan swyddogion Llywodraeth Cymru, fel sail i gynnwys yr Adroddiad a ddosbarthwyd i'r aelodau.

6.2 Dywedodd y Prif Weinidog fod y prif themâu sy'n dod i'r amlwg o Adolygiad 2017 yn cynnwys:

- dull anghyson ar draws rhannau o Lywodraeth Cymru
- yr angen am farn a mewnbynnau cytbwys, er mwyn osgoi'r potensial o fynd at y rhanddeiliaid arferol (y rhai hynny sydd ag enw da am gyfrannu, neu lle mae cysylltiadau personol yn gryfach)

¹⁶ <http://gov.wales/topics/businessandconomy/welsh-economy/economiccouncil/?lang=en>

- yr angen am ymgysylltu cynnar, ffurfiannol, pwrpasol, a'r angen i osgoi dull ticio blychau
- yr angen i gydnabod materion gallu ac adnoddau ymhlith rhanddeiliaid
- yr anhawster o ran asesu 'effaith' drwy niferoedd, a'r angen am ragor o waith yn y maes hwn.

6.3 Gofynnodd y Prif Weinidog a oedd unrhyw bryderon neu ddiwygiadau i'r Adroddiad. Ni chodwyd unrhyw un.

6.4 Diolchodd Lloyd Powell a David Morgan i Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru am y gwaith maen nhw'n ei wneud.

6.5 Dywedodd y Prif Weinidog y bydd yr Adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, ac y byddai'r argymhellion yn cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid cymdeithasol.

7. Nodyn (7a) a (7b) Camau gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2017

7.1 Dywedodd y Prif Weinidog fod nodyn o'r cyfarfod ar 12 Hydref wedi'i ddosbarthu i'r aelodau. Gofynnwyd i aelodau am sylwadau ac i gytuno â'r nodyn.

7.2 Cytunwyd ar y nodyn cyfarfod.

7.3 Dywedodd y Prif Weinidog fod dau gam gweithredu wedi codi yng nghyfarfod mis Hydref:

- i. swyddogion i ddosbarthu Adroddiad yr Athro Max Munday, a oedd yn edrych ar effaith ymadael â'r UE ar gwmnïau mawr a chanolig yng Nghymru, i aelodau - dywedodd y Prif Weinidog fod fersiwn wedi'i golygu o'r Adroddiad wedi'i rhannu ag aelodau Grŵp Gorchwyl Ymadael â'r UE. Ychwanegodd fod yr Adroddiad llawn bellach wedi'i wirio gyda busnesau a wnaeth gymryd rhan a disgwylir ei gyhoeddi ar ddechrau'r mis hwn
- ii. dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth y byddai'n trefnu i'r llyfryn ar y fasnachfaint Rheilffyrdd newydd gael ei gyhoeddi i aelodau – dywedodd y Prif Weinidog fod y llyfryn wedi'i ddosbarthu i aelodau ar 20 Tachwedd.

8 Y Cyfarfod Nesaf

- 8.1 Dywedodd y Prif Weinidog y byddai'r dyddiad yn cael ei ddsbarthu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

9 Unrhyw Fater Arall

- 9.1 Gofynnodd y Prif Weinidog a oedd unrhyw fater arall. Ni chodwyd unrhyw fater arall.
- 9.2 Gwnaeth y Prif Weinidog gau'r cyfarfod a diolchodd i aelodau'r Cyngor am eu cyfraniadau ac am eu presenoldeb.

10 Gorffen

DRAFT